PWYLLGOR PENODI - PENNAETH PERFFORMIAD A PHARTNERIAETHAU

DYDD MAWRTH, 16 EBRILL 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Huw Thomas(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Boyle, Bowen-Thomson, Walker a/ac Weaver |

16 : YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

17 : DATGANIAD BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

18 : CYLCH GORCHWYL

Nodwyd y Cylch Gorchwyl fel a ganlyn:-

*“Cyflawni swyddogaethau’r awdurdod mewn perthynas â phenodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion (fel y’u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth Statudol Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â Rheolau Gweithdrefn Gyflogaeth a pholisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Cyngor”*

19 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Ebrill 2019 fel cofnod cywir.

20 : GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD - Y dylid gwahardd y cyhoedd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem fusnes ganlynol ar y sail, pe bai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i'w drafod, byddai'r wybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt, fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y disgrifir isod:-

Paragraff 12 - Gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymgeisydd i ddod yn gyflogai i'r awdurdod;

Paragraff 13 - Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy oedd unigolyn.

21 : PENODI PENNAETH GWASANAETH, PERFFORMIAD A PHARTNERIAETHAU

Cynullwyd y Pwyllgor i gyfweld â dau ymgeisydd a oedd, yn dilyn y Pwyllgor ar 1 Ebrill 2019, wedi cael eu derbyn i'w cyfweld ar sail y canlyniad o'r Ganolfan Asesu ac asesiad yn erbyn y cymwyseddau allweddol ar gyfer y rôl.

Fel rhan o'r broses gyfweld, gwahoddwyd yr ymgeiswyr i wneud cyflwyniad 10 munud a rhoddwyd cyfle i'r Aelodau holi pob ymgeisydd ar y cyflwyniad.  Dilynwyd hyn gan gwestiynau gosod ffurfiol a dau gwestiwn gorfodol.

Ar ddiwedd y broses gyfweld, ystyriodd y Pwyllgor berfformiad pob ymgeisydd yn erbyn y cymwyseddau a'r ymatebion enghreifftiol.

Cytunodd y Pwyllgor eu bod yn gallu penodi i swydd Pennaeth Gwasanaeth, Perfformiad a Phartneriaethau.

PENDERFYNWYD

1. Bod Mr Gareth Newell yn cael ei benodi'n Pennaeth Gwasanaeth, Perfformiad a Phartneriaethau. yn unol â'r Radd a'r Cyflog a hysbysebwyd ar gyfer y swydd;

2. Bod y broses ddethol wedi'i chynnal yn unol â'r broses Benodi ac roedd yr holl ymgeiswyr wedi cael eu trin yn gyfartal ac yn deg yn ystod y broses. Penodwyd yr ymgeisydd llwyddiannus ar sail teilyngdod.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.00 pm